

Sarilumab ar gyfer arthritis gwynegol cymedrol i ddifrifol

1 Tachwedd 2017

Argymhellir sarilumab (Kevzara), a gymerir ar y cyd â chyffur o'r enw methotrexate, fel triniaeth bosibl i oedolion sydd ag arthritis gwynegol gweithredol difrifol o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- nid yw'r clefyd wedi ymateb i gyffuriau gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau (DMARD) confensiynol
- nid yw'r clefyd wedi ymateb i gyffuriau gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau (DMARD) gan gynnwys o leiaf 1 atalydd alffa TNF, neu ni all y person eu cael, ac ni allant gael rituximab, neu
- nid yw'r afiechyd wedi ymateb i rituximab nac o leiaf 1 atalydd alffa-TNF.

Gellir defnyddio sarilumab ar ei ben ei hun os na all pobl gymryd methotrexate.

Dylid rhoi'r gorau i driniaeth ar ôl 6 mis os nad yw'r arthritis gwynegol yn ymateb yn ddigon da.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth dylech allu parhau i gymryd sarilumab nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [National Rheumatoid Arthritis Society \(NRAS\)](#), 0800 298 7650
- [Arthritis Action](#), 020 3781 7120
- [Versus Arthritis](#), 0800 520 0520

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1710-5